**Rheolwr Prosiect, Live Music Now Cymru**
**Disgrifiad Swydd**

| | |
|---|---|
| **Swydd** | Rheolwr Prosiect, Live Music Now Cymru |
| **Graddfa Gyflog** | £21,000 (y flwyddyn) |
| **Math o swydd** | Rhan amser, 3.5 diwrnod, 26.25 awr yr wythnos. |
| **Dyddiad Dechrau** | 5 Mai. |
| **Hysbysebu am y rhestr fer** | w/c: 26 Mawrth. |
| **Cyfweliadau** | 31 Mawrth a 1 Ebrill, ar-lein dros zoom. |
| **Lleoliad** | Yn bennaf yn swyddfa Live Music Now Cymru, Connie's of Cardiff, Caerdydd ar hyn o bryd gydag opsiwn i weithio diwrnod yr wythnos o gartref.<br><br>Bydd oriau gwaith yn cynnwys oriau craidd, 10am-3pm a chytunir ar hyn â'r Rheolwr Llinell.<br><br>Efallai y bydd eich angen ar gyfer digwyddiadau a drefnir ar draws yr wythnos ac, adegau prin, dros y penwythnos (tua dwywaith y flwyddyn). |
| **I Wneud Cais** | Uwchlwythwch eich CV a llythyr esboniadol yn nodi sut rydych chi'n bodloni'r meini prawf i'r ddolen hon https://www.surveymonkey.com/r/ApplicationProjectManager2025 **erbyn 12 yp (canol dydd) ar 23 Mawrth.**<br><br>Nodwch enwau a manylion cyswllt dau ganolwr sydd mewn sefyllfa i roi sylwadau ar eich gwaith yn broffesiynol, gan nodi'n gryno am ba mor hir a sut y maen nhw'n eich adnabod (ni chysylltir â chanolwyr cyn cyfweliad). |
| **Hysbysu** | Yn anffodus ni allwn roi adborth onid ydych chi ar y rhestr fer. Byddwn yn rhoi gwybod i chi p'un a ydych chi ar y rhestr fer ai peidio. |
| | Mae Live Music Now'n ymrwymedig i fod yn gyflogwr Cyfle Cyfartal ac o ganlyniad rydym yn annog ceisiadau gan bobl sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol yn y sector diwylliannol ac yn ein sefydliad, gan gynnwys pobl sy'n wynebu rhwystrau o anabledd neu sydd wedi profi hiliaeth.<br><br>Caiff pob ymgeisydd Anabl sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol gyfweliad. Caiff ymgeiswyr ar y rhestr fer gyfle i drafod eu gofynion mynediad ar gyfer y cyfarfod.<br><br>Croesewir darpar ymgeiswyr i alw'r Rheolwr Llinell sy'n recriwtio, Cyfarwyddwr Live Music Now Cymru, Jen Abell, gydag unrhyw ymholiadau am y rôl hon cyn gwneud cais, neu os hoffech gyflwyno'ch ymatebion mewn fformat gwahanol. Ffoniwch ar 07549 341 316 neu e-bostiwch jennifer.abell@livemusicnow.org.uk |

Mae Live Music Now yn elusen sydd wedi bod yn gweithio ac ymgyrchu ers 1977 i gael effaith gymdeithasol gynhwysol a mesuradwy drwy gerddoriaeth. Drwy ddefnyddio pŵer cysylltiol cerddoriaeth a gwerthuso ei heffaith, rydym yn datblygu ymarfer cerddorol ac yn newid sut rydym yn deall ac yn cynorthwyo pobl sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol a phobl fregus yn ein cymdeithas. Mae ein gwaith yn gwella ansawdd bywyd, iechyd a lles ac yn hyrwyddo cyfle cydradd drwy gydnabod potensial creadigol pob unigolyn.

Wrth wraidd ein theori o newid mae ymrwymiad i gyflawni effaith gymdeithasol drwy gerddoriaeth. Rydym yn creu'r effaith gymdeithasol honno drwy gerddorion, a chredwn mai nhw yw ein partneriaid mwyaf gwerthfawr a'n hased mwyaf, gan geisio gwasanaethu'r angen cynyddol o gymunedau sy'n wynebu allgau ac anfantais cymdeithasol.
Rydym yn cyflawni hyn drwy dri ymrwymiad:

1. Cynnal bywydau cerddorol pobl sy'n destun anfantais ac allgau cymdeithasol.
2. Datblygu a chynnal y gweithlu o gerddorion proffesiynol i sicrhau ansawdd ymarfer, gan ddelio â diffyg cynrychiolaeth ddigonol drwy greu llwybrau i yrfaoedd hyfyw, a chyflawni'r canlyniadau gorau i'r cymunedau a wasanaethwn.
3. Eirioli a chyflwyno tystiolaeth o fuddion gweddnewidiol cerddoriaeth fyw o ran dysgu, datblygu, iechyd a lles.

Rydym yn cyflogi ac yn hyfforddi dros 300 o gerddorion proffesiynol i weithio gyda phobl hŷn (llawer yn byw gyda dementia), plant a phobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau, y blynyddoedd cynnar a theuluoedd, gofalwyr a gweithwyr allweddol sy'n cynorthwyo eraill.

Mae ein gwaith yn cyrraedd dros 85,000 o bobl, mewn person ac ar-lein, yn perfformio, creu a chydweithio ar gerddoriaeth drwy sesiynau unigol a grŵp, preswylfeydd mewn lleoliadau gofal, ysgolion arbennig ac ysbytai, a chyngherddau. Mae ein gwaith yn helpu'r sawl sy'n cymryd rhan i gyfathrebu a gwneud cysylltiadau cymdeithasol, datblygu sgiliau, a meithrin hyder a gwydnwch.

Ategir ein rhaglenni gan ymchwil a phartneriaethau traws-sector yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon ac yn rhyngwladol. I gael rhagor o wybodaeth ewch i our website

Mae Live Music Now yn gweithredu ym mhob rhan o'r DU, gyda rhaglenni'n canolbwyntio ar Gerddoriaeth mewn Iechyd a Cherddoriaeth mewn Addysg. Mae'r swydd hon yn Live Music Now Cymru a bydd yn gweithio gyda'r Cyfarwyddwyr Cenedlaethol a cherddorion yng Nghymru, yn ogystal â chydweithwyr yn y DU.

Mae Live Music Now wedi bod yn gweithio yng Nghymru ers 1990, gan gyflwyno dros 10,000 o berfformiadau ers hynny. Rydym yn gweithio gyda cherddorion ledled Cymru i ddefnyddio iechyd ar gyfer buddion iechyd, cyfathrebu a lles. Mae'r tîm staff yng Nghymru'n cynnwys y Cyfarwyddwr Cenedlaethol, Rheolwr Prosiect (yn cael ei hysbysebu) a Rheolwr Codi Arian Corfforaethol (hefyd yn cael ei hysbysebu). Mae swyddfa Live Music Now Cymru ym Mae Caerdydd.

**Rheolwr Prosiect, Live Music Now Cymru**
Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

**Rheoli Prosiectau**

- Pob agwedd ar reoli prosiect gan gynnwys; creu a rheoli cynlluniau prosiect, fframweithiau gwerthuso, ffrydiau ariannol, cyllidebau, creu contractau, sicrhau adborth, adroddiadau arianwyr, cofnodi mewn cronfeydd data, cynlluniau cyfathrebu a lliniaru risgiau
- Rheoli ystod o brosiectau a phreswylfeydd cerddorol, dan gyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Cenedlaethol, ar amser ac o fewn cyllideb, gan gynnwys datblygu briff y prosiect, amserlennu, cysylltu â cherddorion a llywyddion, a chofnodi'n gywir incwm a gwariant ar weithgareddau.
- Mabwysiadu dull gwella parhaus o ran ymarfer gwaith gan gynnwys bod yn ymwybodol o gerddoriaeth, codi arian ac adroddiadau, ystadegau a thueddiadau ar draws Cymru. Rhoi gwybod i reolwyr llinell am argymhellion a risgiau strategol mewn ymateb i hyn
- Ymweliadau safle achlysurol i weld gweithgarwch ar brosiect;
- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol a'r Cyfarwyddwr Rhaglen Strategol perthnasol i sicrhau bod gweithdrefnau monitro a gwerthuso priodol ar waith, a bod adroddiadau cywir yn cael eu cyflwyno i arianwyr erbyn terfynau amser;
- Cysylltu â cherddorion a phartneriaid i ddogfennu gweithgareddau drwy ffotograffau, ffilm a sain mewn ymgynghoriad â staff perthnasol Live Music Now, a sicrhau bod cysyniad priodol ar waith;
- Paratoi adroddiadau'n ôl y gofyn at ddefnydd mewnol ac allanol.

**Codi Arian**

- Ymchwilio i gyfleoedd ariannu, terfynau amser i'w cyflwyno ac ysgrifennu ceisiadau gyda chymorth y Cyfarwyddwr Cenedlaethol a'r Rheolwr Ymddiriedolaethau a Sefydliadau;
- Bwrw targedau codi arian misol a blynyddol;
- Rheoli perthnasau â chodwyr arian, gan gydymffurfio â phrotocolau stiwardiaeth arianwyr a pharatoi adroddiadau diwedd prosiect gyda chymorth y Cyfarwyddwr Cenedlaethol;
- Sicrhau comisiynau gan ystod o bartneriaid, newydd a hen ar gyfer rhaglenni Live Music Now;
- Cynnal cofnodion incwm, gwariant ac incwm a ragfynegir cywir i'w hadrodd yn fisol i'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol.

**Gweinyddu**

- Cofnodi digwyddiadau ar gronfa ddata (Blackbaud's Raiser's Edge), creu contractau ac amserlenni i gerddorion a lleoliadau;
- Ceisio adborth/gwerthuso gan leoliadau, y sawl sy'n cymryd rhan a cherddorion a'i gofnodi ar feddalwedd cronfa ddata/arolwg yn ôl y gofyn; dadansoddiad misol o adborth ac arolygon;
- Sicrhau bod manylion cyswllt cerddorion, partneriaid a lleoliadau'n gyfredol ar y gronfa ddata;
- Cadw ystafelloedd ar gyfer hyfforddiant ac ati yn ôl y gofyn;
- Rheoli offer i'w roi ar fenthyg i gerddorion: iPads, allweddellau, offerynnau taro ac ati;
- Bod yn rhagweithiol wrth weithio mewn tîm a gwneud gwelliannau i ymarfer, dylunio sesiynau cyfarfod tîm a rhannu profiad fel rhan o dull gwelliant parhaus yn y rôl hon a gwaith ehangach Live Music Now.

**Cyllid**

- Tasgau llywodraethu misol gan gynnwys cofnodi llif ariannol prosiect, rheoli cyllid sydd i ddod, prosesu anfonebau ac amlygu risgiau a chyfleoedd ariannol i'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol.

**Marchnata a Chyfathrebu**

- Eirioli dros waith ac effaith Live Music Now yn fewnol ac yn allanol. Defnyddio profiad i reoli ein prosiectau i gasglu gwybodaeth prosiect, delweddau a dyfyniadau ar gyfer diweddariadau ar wefan a chyfryngau cymdeithasol Live Music Now;
- Creu taflenni a deunyddiau marchnata gan ddefnyddio Canva a Flickr (rhoddir hyfforddiant) a dylunio a darparu cyfathrebiadau hyrwyddo'r sefydliad.

**Rheoli Cerddorion**

- Cynorthwyo'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol i gysylltu â cherddorion, deall eu sgiliau, nodau datblygu a'r ffordd orau y gallwn feithrin perthynas sydd o fudd i'r ddwy ochr;
- Rheoli gwiriadau GDG i gerddorion yn unol â pholisi Diogelu Live Music Now.

**Rheoli Llinell**

- Dyrannu tasgau i reolwyr prosiect llawrydd yn achlysurol.

**Tasgau ychwanegol**

- Dirprwyo'n achlysurol i'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol mewn digwyddiadau mewnol ac allanol;
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill fel y gofynnir gan y Cyfarwyddwr Cenedlaethol, sy'n berthnasol i Live Music Now.

---

**Telerau ac Amodau**

Mae hon yn swydd â chontract parhaol.

Y cyflog fydd £21000 y flwyddyn am 26.25 awr yr wythnos ac fe'i telir bob mis.

a) a) Mae'r penodiad yn amodol ar:
  i) bedair wythnos o roi gwybod am ymddiswyddo ar y ddwy ochr
  ii) Cyfnod prawf o chwech mis

b) Efallai y bydd angen gweithio rhywfaint gyda'r nos neu ar y penwythnos. Nid oes tâl goramser ond trefnir gwyliau in lieu a gymeradwyir ymlaen llaw.

c) Bydd deiliad y swydd yn gweithio'n swyddfa Caerdydd. Rhoddir offer TG.

d) Mae gan Live Music Now gynllun pensiwn i'r holl staff sy'n gymwys ar ôl cwblhau'r cyfnod prawf yn llwyddiannus, a delir drwy'r gyflogres. Mae'r sefydliad yn cyfrannu 3% o'ch cyflog at y cynllun ar ôl cwblhau'r cyfnod prawf.

**Cyfle Cyfartal**

Mae Live Music Now'n ymrwymedig i fod yn gyflogwr Cyfle Cyfartal ac o ganlyniad rydym yn annog ceisiadau gan bobl sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol yn y sector diwylliannol ac yn ein sefydliad, gan gynnwys pobl sy'n wynebu rhwystrau o anabledd neu sydd wedi profi hiliaeth.

Caiff pob ymgeisydd Anabl sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol gyfweliad. Caiff ymgeiswyr ar y rhestr fer gyfle i drafod eu gofynion mynediad ar gyfer y cyfarfod.

Mae Live Music Now yn gyflogwr hyblyg a theg; gallai gweithio hyblyg fod yn bosib o'i drafod â rheolwyr llinell.

Os hoffech drafod y cais ymhellach, os oes angen cymorth arnoch wrth gwblhau'r cais ar-lein, neu os hoffech gyflwyno'ch ymatebion mewn fformat gwahanol, e-bostiwch jobs@livemusicnow.org.uk neu ffoniwch 07549 341 316.

**Nodiadau**
Gall pob swydd newid o bryd i'w gilydd a chaiff y disgrifiad swydd hwn ei adolygu'n rheolaidd. Mae'r disgrifiad swydd yn ganllaw i'r gwaith y bydd yn rhaid i chi ei wneud ac nid yw ond yn rhan o ystod o gyfrifoldebau'n unol â graddfa'r swydd.

**Rheolwr Prosiect (Cyfnod Mamolaeth) Live Music Now Cymru:**
**Manyleb Person**

| | Hanfodol | Dymunol | Asesir drwy |
|---|---|---|---|
| **Profiad** | | | |
| O leiaf tair flynedd o brofiad mewn sefydliad celfyddydol, diwylliannol neu wirfoddol, neu sefydliad tebyg | X | | Cais a chyfweliad |
| **Sgiliau/cymwyseddau** | | | |
| Sgiliau Rheoli Prosiect, gan gynnwys cynllunio, blaenoriaethu, gweithredu a monitro nifer o brosiectau ar yr un pryd | X | | Cais a chyfweliad |
| Hanes o sgiliau sefydliadol a'r gallu i ddelio â llwyth gwaith amrywiol a phrysur | X | | Cais, prawf a chyfweliad |
| Gwybodaeth weithiol am gysylltu â lleoliadau iechyd, addysg a gofal cymdeithasol i drefnu prosiectau | X | | Cais a chyfweliad |
| Hyderus a medrus ar draws ystod o becynnau TGCh (MS Office, meddalwedd casglu data) ac adnoddau cyfarfod ar-lein a rhannu, gan gynnwys Dropbox a Zoom | X | | Cais a chyfweliad |
| Sgiliau trefnu a rheoli amser rhagorol, ynghyd â bod yn gwrtais dros y ffôn | X | | Cais a chyfweliad |
| Tystiolaeth o sgiliau datrys problemau | X | | Cais, prawf a chyfweliad |
| Sgiliau cyfathrebu rhagorol, yn arbennig rhai ysgrifenedig a llafar, gyda pharodrwydd i ymgysylltu ag ystod eang o bartneriaid. | X | | Cais a chyfweliad |
| Gwybodaeth weithiol y gellir ei phrofi am yr amgylchedd ariannu yng Nghymru (statudol, ymddiriedolaethau a sefydliadau a/neu eraill) gan gynnwys gallu i greu cynigion yn unol â blaenoriaethau arianwyr | X | | Cais a chyfweliad |
| Tystiolaeth o godi arian yn llwyddiannus drwy; ymddiriedolaethau a sefydliadau, codi arian corfforaethol neu godi arian yn y gymuned. Gellir profi hyn drwy swyddi gwirfoddol yn ogystal â rhai sy'n talu | X | | |
| Gallu cynrychioli'r sefydliad, cyfathrebu'n hyderus, a dirprwyo ar gyfer y Cyfarwyddwr Cenedlaethol yn ôl y gofyn | X | | Cais a chyfweliad |
| Gwybodaeth weithiol am adnoddau marchnata, gan gynnwys defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gynnwys cynulleidfaoedd a rhanddeiliaid | X | | Cais a chyfweliad |
| Hyderus wrth reoli a diweddaru cyllidebau, ac olrhain cyllid byrdymor a hirdymor. | X | | Cais, prawf a chyfweliad |
| **Gwybodaeth ac agwedd** | | | |
| Diddordeb mewn datblygu cerddorion proffesiynol yng Nghymru | X | | Cais, a chyfweliad |
| Diddordeb mewn addysg gerdd ac ymarfer cerddorol cynhwysol | X | | Cais a chyfweliad |
| Brwdfrydedd dros, ac ymrwymiad i, botensial cerddoriaeth fel dull o sicrhau newid cymdeithasol, a'i heffaith ar gyfranogwyr a cherddorion | X | | Cais a chyfweliad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ymrwymiad i amrywiaeth, cynhwysiant a chyfle cyfartal | X | | Cais,<br>a chyfweliad |
| Dealltwriaeth o ddiogelu ac ymrwymiad iddo | X | | Cais<br>a chyfweliad |
| Ymrwymiad i welliant parhaus prosesau a gweithdrefnau mewnol | X | | Cais<br>a chyfweliad |
| Ymrwymiad i ymarfer gweithio sy'n dda i'r amgylchedd, gan ddeall yr effaith y gall penderfyniadau bob dydd yn y gwaith ei chael ar gyfiawnder hinsawdd yng Nghymru ac yn fyd-eang | X | | Cais<br>a chyfweliad |
| **Cyffredinol** | | | |
| Egnïol, creadigol, mentrus ac ymrwymedig | X | | Cais a chyfweliad |
| Rhywun llawn cymhelliant sy'n dangos blaengaredd; yn gallu pennu blaenoriaethau, bwrw targedau a gweithio'n unigol, tra'n gweithio fel rhan o dîm ehangach dan gyfarwyddyd. | X | | Cais a chyfweliad |
| Gallu gweithio fel rhan o dîm a datblygu perthnasau effeithiol, o bell ac mewn person | X | | Cais a chyfweliad |
| Trwydded yrru lân ac yn berchen ar gar | | X | Cais |
| Yn siarad Cymraeg | | X | Cais a chyfweliad |

**Eich data a'ch preifatrwydd**
Cedwir data pob ymgeisydd ar ein system yn ystod y broses gyfweld at ddibenion mewnol yn unig. Ar ôl yr amser hwn, dim ond data personol a chanolwyr yr ymgeisydd llwyddiannus a gedwir: caiff yr holl ddata o ymgeiswyr aflwyddiannus ei ddinistrio neu ei ddileu o'n cofnodion. Mae Live Music Now yn ymrwymo i byth â gwerthu neu ryddhau data unrhyw unigolyn i gwmnïau allanol. Gweler ein Polisi Data a Phreifatrwydd am fwy o fanylion.

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am waith a newyddion Live Music Now, cofrestrwch i'n cylchlythyr ar ein gwefan yn [www.livemusicnow.org.uk](http://www.livemusicnow.org.uk)